



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Gweithgareddau
Mathemateg
i'r Teulu
Blwyddyn 4



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk
familymathstoolkit.org.uk

 **National
Numeracy**
Getting on with numbers



Pecyn Mathemateg Teulu

1

2

3

4



Rhagarweiniad

Nod yr adnodd teuluol hwn, sydd wedi'i brofi i fod yn gwella hyder plant a rhieni mewn mathemateg, yw hyrwyddo mwynhad o fathemateg drwy drafod a gweithio gyda'n gilydd ar fathemateg bob dydd.

Mae'r pecyn hwn gan National Numeracy yn cynnwys gweithgareddau byr, hwyliog 'bywyd go iawn' i deuluoedd eu gwneud â'u plant, gyda ffocws cryf ar ddatrys problemau a rhesymu.

Mae'n cynnwys 36 o weithgareddau. Yn y pecyn hwn, maen nhw wedi eu trefnu i fynd yn raddol anoddach – ond gellir eu dewis i gyd-fynd â'r maes cwricwlwm y mae eich plant yn gweithio arno.

Nid yw'r taflenni gweithgaredd unigol yn dangos grŵp blwyddyn nac oed, dim ond codau lliw fel y gallwch ddweud y gwahaniaeth. Dylid nodi bod y lefel yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyfartalog ar gyfer y grŵp blwyddyn – gallai'r plant fod yn gweithio ar lefel is neu uwch, felly defnyddiwch weithgareddau o grwpiau blwyddyn eraill os oes angen.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Trosolwg yn awgrymu sut y gallwch rannu'r gweithgareddau yn ôl tymor ysgol a phwnc rhifedd.
- 36 o weithgareddau, yn y drefn a roddir yn y trosolwg.
- 3 taflen atebion, un i bob tymor (cofiwch fod llawer o'r gweithgareddau wedi eu dylunio i fod yn benagored felly rhoddir atebion ond i weithgareddau sy'n gofyn am ateb).

Ar gyfer ysgolion

Argymhellwn y dull canlynol i ysgolion sy'n defnyddio'r gweithgareddau:

- Dull dosbarth cyfan neu hyd yn oed ddull ysgol gyfan.
- Os yw'r plant yn gweithio'n uwch neu'n is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed, dewiswch weithgaredd o grŵp blwyddyn arall.
- Cynnal gweithdy i fodelu trafodaethau'r gweithgareddau i rieni llai hyderus.
- Pwysleisio y gall unrhyw aelod o'r teulu weithio gyda'r plentyn ar y gweithgaredd.
- Os nad oes oedolion yn helpu allan yn y cartref, awgrymwn ddod o hyd i ffrind ysgol hŷn i helpu mewn clwb ar ôl ysgol neu gyn-ysgol.
- Nid oes raid i'r rhiant / gofalwr fod ag unrhyw wybodaeth arbennig am fathemateg neu offer ysgol.
- Annog y plant i fod yn greadigol: tynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau.
- Annog yr oedolyn a'r plentyn i ddefnyddio'r blwch sylwadau i fyfyrion a'ch helpu chi i ddeall beth y maen nhw'n ei feddwl o bob gweithgaredd.
- Arddangos gweithgareddau a gwblhawyd fel bo'r plant a'r teuluoedd yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd nad un ffordd yn unig sydd o ddatrys problem ond sawl ffordd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669



Pecyn Mathemateg Teulu

1

2

3

4



Ar gyfer rhieni a gofalmwyr

Sut bynnag y teimlwch am fathemateg, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i sut y mae plant yn dysgu rhifedd.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos bod siarad am fathemateg pob dydd yn magu hyder plant mewn mathemateg. Dyma rai cwestiynau y gallwch ofyn i'ch gilydd wrth wneud y gweithgareddau:

- Beth sydd angen ei wneud?
- Pa wybodaeth sydd gennym ni? Beth sydd angen ei ddarganfod?
- Fyddai offer yn helpu?
- Beth sylwch chi arno pan...?
- Beth am ddyfalu'r ateb i weld ydy o'n iawn?
- Beth allwn ei wneud os awn yn styc?
- Os byddwn yn gwneud hyn eto, allen ni wneud rhywbeth yn wahanol?

Gallwch addasu'r gweithgareddau i ddiddordebau eich teulu a defnyddio unrhyw eitemau sydd wrth law, yn y cartref neu'r tu allan iddo.

Gallech dynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau – mae i fyny i chi!

Defnyddiwch y sylwadau i fyfyrio ar eich trafodaethau a meddyliau wrth wneud y gweithgaredd gyda'ch gilydd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl4

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Hydref	Rhif a gwerth lle	Gêm gardiau rhifau Rhufeinig	Darllen rhifau Rhufeinig hyd at 100.	
	Rhif – lluosï a rhannu	Pos fferins	Datrys problemau'n defnyddio tablau lluosï 5 a 7.	
	Mesur	Taith antur	Amcangyfrif, cymharu a chyfrifo gwahanol fesurau, datrys ystod o broblemau, cyfiawnhau eu meddwl.	
	Geometreg – nodweddion siâp	Caffi corachod Siôn Corn Parti Nadolig	Datrys problemau gydag arian. Datrys problemau drwy adio a thynnu arian.	
		Trefnu trip	Datrys problemau arian, gan gynnwys dau le degol.	
		Patrwm Rangoli	Tynnu llun patrymau cymesur yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i ddod yn gyfarwydd â gwahanol ogwydd ar linellau cymesuredd, ac adnabod cymesuredd llinellau mewn amrywiaeth o ddiagramau.	
		Dau doriad	Dosbarthu siapiau'n defnyddio nodweddion geometrig ac ehangu'r dysgu i ddosbarthu gwahanol drionglau a phetryalau.	
		Coeden Nadolig	Datblygu sgiliau gwrando, dilyn cyfarwyddiadau'n gywir a datblygu eu cyfarwyddiadau eu hunain yn defnyddio gwahanol eirfa safleoedd a geometrig.	
	Datrys problemau	Datrys y cod	Datrys ystod o broblemau a datblygu sgiliau meddwl rhesymegol.	

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl4

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Gwanwyn	Rhif a gwerth lle	Teithio o gwmpas Ewrop	Gwerth lle yn cyflwyno neu ddefnyddio rhifau dros 1000.	Datrys problemau'n defnyddio ffractsiynau.
	Rhif – adio a thynnu	Amcangyfrif pob dydd	Perffeithio sgiliau amcangyfrif, defnyddio'r pedair gweithred rifyddol ac amrywiaeth o ddulliau i ddatrys ystod o broblemau, datblygu'r meddwl mathemategol.	
		Heriau dominos	Dyblu rhifau, odrifau ac eilrifau, adio dilyniant o rifau, datrys problemau.	
	Rhif – lluosï a rhannu	Lladrad aur	Datrys ystod o broblemau'n defnyddio rhannu, gweithio'n systematig a datblygu'r meddwl mathemategol.	
	Mesur	Bwydlen caffi	Datrys problemau gydag arian mewn cyd-destun, e.e. dewisiadau bwyd ar fwydlen.	
		Cynnig arbennig	Datrys problemau arian mewn cyd-destun bywyd go iawn yn defnyddio dau le degol a meddwl yn fathemategol.	Datrys problemau'n defnyddio ffractsiynau.
		Dylunio <i>hobbit</i>	Amcangyfrif, cymharu a chyfrifo'n defnyddio gwahanol fesurau'n gywir.	
		Arwynebedd a pherimedr	Mesur a chyfrifo perimedr ffigwr unionsyth (gan gynnwys sgwariau) mewn cm a m. Dod o hyd i arwynebedd siapiau unionsyth drwy gyfri'r sgwariau.	
		Dyddiadau Dydd San Ffolant	Datrys problemau'n defnyddio misoedd a blynyddoedd.	

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl4



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Haf	Rhif – adio a thynnu	Croesair Platiau rhif ceir	Ymarfer defnyddio dulliau mathemateg pen ar gyfer y pedair gweithred rifyddol. Datrys ystod o broblemau, meddwl yn fathemategol a gweithio'n systematig.	Datrys ystod o broblemau a datblygu'r meddwl mathemategol a sgiliau rhesymu.
	Rhif – lluosïo a rhannu	Tasg tablau lluosïo	Ad-alw a defnyddio ffeithiau lluosïo.	
	Rhif - ffracsiynau	Paratoi pitsa	Datrys problemau gyda ffracsiynau i rannu meintiau; adio a thynnu ffracsiynau gyda'r un enwadur.	
	Mesur	Prisiau coctels	Amcangyfrif, cymharu a chyfrifo gwahanol fesurau, gan gynnwys arian gyda phunnoedd a cheiniogau.	
		Teithio o gwmpas y DU	Darllen, ysgrifennu a throsi amser rhwng clociau analog a digidol 12 a 24 awr, cyflwyno data.	
		Penbleth bag awyren	Mesur, cymharu, adio a thynnu màs (g/kg) a hyd (m/cm/mm).	
		Her amser	Datrys problemau drwy drosi oriau'n funudau, munudau'n eiliadau, blynnyddoedd yn fisoedd, wythnosau yn ddiwrnodau.	
	Ystadegau	Gweithio gyda'ch calon	Datrys problemau'n defnyddio a throsi eiliadau'n funudau; dehongli a chyflwyno gwahanol ddata; datrys problemau cymharu'n defnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd.	

Gêm gardiau rhifau Rhufeinig



Gêm ymarfer adnabod rhifau Rhufeinig yw hon. Torrwch y cardiau allan a'u cymysgu'n ofalus. Rhannwch nhw i bob un sy'n chwarae. Dewiswch unrhyw un i ddechrau, gydag unrhyw gerdyn. Dechreuwch drwy ddarllen y cwestiwn allan. Pawb arall i weld a oes ganddynt gerdyn pâr i'r cerdyn a ddangoswyd, gan ddarllen 'Mae gen i...', yna gofyn y cwestiwn o dano.



Gallech feddwl am fwy os ydych yn hapus gyda'r rhain.

Mae gen i I Pwy sydd â 2?	Mae gen i II Pwy sydd â 3?	Mae gen i III Pwy sydd â 4?	Mae gen i IV Pwy sydd â 5?	Mae gen i V Pwy sydd â 6?
Mae gen i VI Pwy sydd â 7?	Mae gen i VII Pwy sydd â 8?	Mae gen i VIII Pwy sydd â 9?	Mae gen i IX Pwy sydd â 10?	Mae gen i X Pwy sydd â 11?
Mae gen i XI Pwy sydd â 12?	Mae gen i XII Pwy sydd â 13?	Mae gen i XIII Pwy sydd â 14?	Mae gen i XIV Pwy sydd â 15?	Mae gen i XV Pwy sydd â 20?
Mae gen i XX Pwy sydd â 25?	Mae gen i XXV Pwy sydd â 30?	Mae gen i XXX Pwy sydd â 38?	Mae gen i XXXVIII Pwy sydd â 40?	Mae gen i XL Pwy sydd â 50?
Mae gen i L Pwy sydd â 50?	Mae gen i LV Pwy sydd â 70?	Mae gen i LXX Pwy sydd â 90?	Mae gen i XC Pwy sydd â 100?	Mae gen i C Pwy sydd â 1?

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Darllen rhifau
Rhufeinig hyd at 100

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Pos fferins




**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Beth yw eich hoff fferins?

Mae 5 o fferins choi mewn paced a 7 o lolipops mewn paced.

Mewn parti, mae angen cymysgedd o 140 o fferins fel gwobrau. Faint o bacedi o bob math o fferins allech chi ei brynu?

Meddyliwch am gymaint o wahanol ffyrdd â phosib.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau'n defnyddio ffeithiau tablau lluosu 5 a 7.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Taith antur



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Dychmygwch eich bod ar daith antur a rhaid i chi abseilio i lawr mynydd ond dim ond 25kg o gyfarpar allwch chi ei gario.

Rhaid i chi ddewis pa gêr cysgu, gêr golchi, dillad a bwyd a diod y gallwch ei bacio i fag sy'n gorfod pwyso llai na 25kg.

Chwiliwch o gwmpas y tŷ ac yn y cypyrddau i benderfynu beth allwch fynd gyda chi i oroesi.

Beth fyddai aelodau eraill o'ch teulu'n mynd gyda nhw?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Amcangyfrif, cymharu a chyfrifo gwahanol fesurau, datrys ystod o broblemau, cyfiawnhau eu meddwl.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Caffi corachod Siôn Corn




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dyma beth y mae corachod Siôn Corn yn ei godi am fwyd yn eu caffi:

- 1 mins pei a phaned o de am £4
- 2 fins pei a 2 fisged carw am £9
- 1 fisged carw a 2 baned o de am £2

1. Faint sydd angen ei dalu am 1 fins pei ac 1 fisged carw?
2. Faint y mae pob eitem yn ei gostio ar ei phen ei hun?
3. Allwch chi feddwl am bos tebyg ar gyfer rhywun yn eich teulu? (cofiwch ei brofi i ddechrau!)

Gwerthwch eich hoff fwydydd Nadolig.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau
gydag arian

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Parti Nadolig



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Eich tasg yw trefnu parti gyda hyn a hyn o arian.
Mae'r parti i 8 o blant bach.**

**Byddech yn hoffi cael adloniant o ryw fath
a gemau gyda gwobrau. Yn amlwg, bydd
angen bwyd a diod arnoch hefyd - heb
anghofio'r gacen wrth gwrs.**

Eich cyllideb am y parti i gyd yw £100.

Edrychwch ar y rhestr brisiau a chyfrifo beth allwch
ei fforddio gyda'ch cyllideb. Cofiwch allwch chi ddim
mynd ceiniog drosodd!



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

NN National
Numeracy
Getting on with numbers

Parti Nadolig



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Eitem	Cost	Eitem	Cost
Paced o greision	30c yr un neu becyn o 6 am £1.50	Dŵr	Am ddim
Pacedi o 'wellt' caws	£0.75 tua 10 mewn pecyn	Diod oren, lemwn neu gyrins duon	£0.10 y cwpan (150ml)
Mini-selsigau ar ffyn	£1.20 am becyn o 12	Cwpanau plastig	£0.50 am becyn o 10
Mini-bitsas	£1.75 pecyn o 6	Platiau plastig	£0.75 am bob pecyn o 10
Rholiau selsig	£1.25 pecyn o 6	Pacedi o fferins	£0.99 yr un
Bisgedi	£0.75 y paced	Chwibanau	£0.25 yr un neu becyn o 5 am £1
Mini-frechdanau (gwahanol lenwadau)	£1.60 am bob pecyn o 4	Mini gemau dwylo	£0.99 yr un
Mini-gacennau sbwng neu 'Siôn Corn'	£1.50 am bob pecyn o 8	Llogi castell bownsio bychan	£35 yr awr
Cacen siocled sbwng Nadoligaidd	£4.50 - digon i 8	Sioe gonsuriwr neu gomedï	£42 yr awr
Poteli 1 litr o ddiodydd pefriog = 6 cwpanaid	£0.90 yr un	Bagiau anrheg i fynd adra	£0.75 yr un

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau drwy adio a thynnu arian.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Trefnu trip




**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae gennych £2000 i'w wario ar wyliau.

- I ble fydddech chi'n mynd?
- Fydddech chi'n mynd â theulu gyda chi?
- Faint fyddai o'n gostio?
- Allech chi fynd i weld mwy nag un lle?

Trefnwch gynllun o lefydd go iawn i fynd iddynt a faint fyddai o'n gostio.

Dyma enghraifft o ddiwrnod allan (gyda phrisiau cogio bach), ond gallwch fynd i rywle! Meddyliwch am brisiau gwirion!



Lle	Pwy	Cost	Cyfanswm
Disneyland Paris	2 oedolyn a 2 blentyn	Oedolion £575.00 yr un Plant £300.00 yr un	£1,750.00
Tŵr Eiffel	1 oedolyn a 2 blentyn	Oedolyn £28.00 Plant £20.00 yr un	£68.00
Taith gwch ar Afon Seine	2 oedolyn a 2 blentyn	Oedolion £30.80 yr un Plant £26.55 yr un	£114.70

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau arian, gan gynnwys dau le degol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Patrwm Rangoli



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Gallwch wneud patrymau Rangoli o amryw o wahanol siapiau – maen nhw’n gallu bod yn sgwâr, hirsgwar neu’n grwn neu’n gymysgedd o’r tri.

Edrychwch ar yr enghraifft. Gallech liwio’r patrwm hwn neu ddefnyddio’r siapiau i ddylunio un eich hun.

Yn aml iawn maen nhw’n gymesur ac yn cymryd eu syniadau o natur – paun, blodau, ffrwythau a dail – meddyliwch sut batrwm allech chi ei wneud.

Allai eich teulu ddylunio rhai gwahanol? Pa un yw eich hoff batrwm?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Tynnu llun patrymau cymesur yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i ddod yn gyfarwydd â gwahanol ogwydd ar linellau cymesuredd, ac adnabod cymesuredd llinellau mewn amrywiaeth o ddiagramau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk




Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Dau doriad




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dechreuwch gyda sgwâr.



Pa un o'r siapiau hyn allwch chi ei wneud drwy wneud dau doriad syth iddo?

Pentagon	Hecsgon	Octagon	Siâp saith ochrog
Trapesiwm	Paralelogram	Rhombws	Petryal afreolaidd
Barcud	Triongyl ongl sgwâr	Triongyl isosgeles	Triongyl hafalochrog / cyfochrol



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

 **National
Numeracy**
Getting on with numbers

Tynnwch lun siapiau (defnyddiwch bren mesur gan ofalu bod pob ochr yr un hyd), nodwch eich toriadau ar y sgwariau ac enwi'r siâp.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Dosbarthu siapiau'n defnyddio nodweddion geometrig ac ehangu'r dysgu i ddosbarthu gwahanol drionglau a phetryalau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Coeden Nadolig



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Tynnwch lun goeden Nadolig blaen.

Gofynnwch i un o'ch teulu ddarllen y cyfarwyddiadau i'w haddurno – bydd angen i chi wrando'n astud. Bydd angen creons neu bensiliau lliw arnoch.

1. Rhowch anrheg glas sgwâr gyda rhuban pinc ar ochr dde bonyn y goeden.
2. Rhowch bobl crwn, oren ar y 3edd gangen ar yr ochr chwith.
3. Tynnwch lun bwced coch o gwmpas y bonyn, rhowch anrheg glas siâp ciwb wrth ei ymyl.
4. Tynnwch lun seren ar ben y goeden – gyda 5 pwynt.
5. Rhowch ffon fferins ar y gangen 1af ar yr ochr dde.
6. Rhowch ffon fferins arall yn gymesur ar yr ochr arall.
7. Rhowch anrheg siâp prism trionglog ar yr ochr chwith i'r bonyn. Dylai'r papur lapio fod yn wyrdd gyda sêr melyn arno.
8. Gorffennwch droi roi 5 bôbl gwahanol, 2 x coch, 2 x glas, 1 x gwyrdd yn unrhyw le.

Yna ysgrifennwch gyfarwyddiadau'n ofalus ac yna gweld a all eich teulu eu dilyn i addurno coeden wag arall.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datblygu sgiliau gwrando, dilyn cyfarwyddiadau'n gywir a datblygu eu cyfarwyddiadau eu hunain yn defnyddio gwahanol eirfa safleoedd a geometrig.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Datrys y cod



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Datrysych hwn!

MEMER, REB R BMEME EHTRE HTFIF VONFO REBME

Gair o gyngor: Ysgrifennwch bob bloc o lythrennau ar yn ôl i'w ddarllen yn iawn! Bydd angen i chi eu didol a'u rhoi mewn trefn i wneud synnwyr.

Dilynwch y trywydd o'r dechrau i'r diwedd...

Wedi ei ddatrys? Rŵan, gwnewch un eich hun a gweld a all eich ffrindiau ei ddatrys!

E	A	S	O	N
R	U	N	X	A
T	G	P	T	N
R	X	O	O	D
E	D	W	L	P

Wedi'i addasu o weithgaredd Bletchley Park

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys ystod o broblemau a datblygu sgiliau meddwl rhesymegol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Teithio o gwmpas Ewrop



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Dilynwch y trywydd o'r dechrau i'r diwedd...

	Berlin	Brwsel	Dulyn	Llundain	Madrid	Munich	Paris	Rhufain
Berlin	0	652	1315	930	1868	502	877	1182
Brwsel	652	0	773	319	1314	602	261	1171
Dulyn	1315	773	0	463	1450	1375	777	1882
Llundain	930	319	463	0	1263	916	341	1431
Madrid	1868	1314	1450	1263	0	1485	1053	1361
Munich	502	602	1375	916	1485	0	685	698
Paris	877	261	777	341	1053	685	0	1106
Rhufain	1182	1171	1882	1431	1361	698	1106	0

Mae'r tabl hwn yn dangos y cilometrau rhwng dinasoedd yn Ewrop.
Rydych wedi ennill gwobr raffl gan gwmni awyrennau i hedfan 5000 cilometr!

Pa ddinasoedd fydddech chi'n mynd iddynt?
Dechreuwch yn Llundain a chofio bod angen dod yn ôl i Lundain.

Gair o gyngor: Cofiwch ddechrau o'r ddinas y byddwch yn dychwelyd iddi bob tro.

Her: Faint o gilometrau sydd angen teithio i ddechrau er mwyn cyrraedd Llundain o'ch cartref?

Sylwadau teulu:

Wedi'i addasu o weithgaredd Bletchley Park

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Gwerth lle drwy
gyflwyno neu
ddefnyddio rhifau dros
1000.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Amcangyfrifo pob dydd



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Meddyliwch am rywbeth a wnewch bob dydd
– fel brwsio eich dannedd – gan amcangyfrif
faint o weithiau y byddwch yn eu brwsio
mewn oes gyfan.**

Yna ceisiwch gyfrifo'r ateb (gyda chyfrifiannell
neu drwy ofyn i oedolyn am help) - ni fydd yn
ateb manwl gywir!



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Perffeithio sgiliau
amcangyfrif,
defnyddio'r pedair
gweithred rifyddol
ac amrywiaeth o
ddulliau i ddatrys
ystod o broblemau,
datblygu'r meddwl
mathemategol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Heriau dominos



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Yn defnyddio set o ddominos, allwch chi ddarganfod:
(os nad oes gennych ddominos, torrwch rai allan o'r daflen)**

- 5 domino sy'n adio i roi 20
- 5 o odrifau dwbl sy'n adio i roi mwy na 10
- 3 dwbl sy'n rhoi cyfanswm o dros 20
- 4 bron-ddwbl sy'n rhoi cyfanswm o dros 25
- Domino gyda gwahaniaeth o 3 rhwng nifer y dotiau ym mhob pen
- Domino gydag odrif yn un pen, ac eilrif yn y pen arall

Allwch chi wneud neidr gyda'r holl ddyblau – i ba rif y mae'n adio?

Allwch chi wneud neidr gyda 40 o ddotiau?

Allwch chi wneud neidr gyda chyfanswm eilrif rhwng 31 a 41?


Allwch chi feddwl am reolau eraill?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Dyblau rhifau,
odrifau ac eilrifau,
adio dilyniant o
rifau, datrys
problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Lladrad aur



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae pum corrach yn dwyn bariau o aur oddi ar Idris Gawr. Maen nhw'n penderfynu rhannu'r aur a mynd eu ffyrdd eu hunain.

Ond ar ôl rhoi cynnig ar hyn, mae 2 o fariau ar ôl. Maen nhw'n cwffio dros bwy ddylai eu cael nhw!

Mae un corrach yn cael ei daro'n anymwybodol. Mae'r pedwar arall yn mentro rhannu'r bariau rhwng pedwar yn lle pump, ond eto'n ffraeo oherwydd bod un bar dros ben.

Cyfrifwch faint o fariau o aur a ddwynodd y corachod.

Her: Newidiwch y broblem i rywun arall drwy gael nifer wahanol o gorachod, neu drwy newid faint sy'n cael eu taro'n anymwybodol, neu faint o fariau sydd ar ôl. Gwiriwch i weld neith o weithio!



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys ystod o broblemau'n defnyddio rhannu, gweithio'n systematig a datblygu'r meddwl mathemategol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Bwydlen caffi



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Dyma fwydlen amser cinio:

- **Sbageti arbennig neu bastai llysiau**
- **Taten bob neu salad**
- **Oren neu iogwrt neu hufen iâ**

Beth yw'r gwahanol brydau posib y gallech eu cael (gan ddewis un o bob llinell bob tro)?

Rhowch bris i bob eitem a chyfrif cost pob pryd o fwyd. Pa bryd fyddai'r un rhataf?

Her: Cymrwch arnoch eich bod am agor bwyty – dewiswch ddau brif gwrs a dau bwdin i'w rhoi ar y fwydlen. Faint fydden nhw'n ei gostio?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau gydag arian mewn cyd-destun, fel dewisiadau bwyd ar fwydlen.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Cynnig arbennig



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Wrth fynd i siopa, ydych chi'n chwilio am gynigion arbennig fel 'dau am bris un'? Neu 'prynu un, yr ail am hanner pris'?

Edrychwch faint o gynigion arbennig allwch chi eu gweld mewn siop neu ar-lein – ydyn nhw i gyd yn fargeinion?

Weithiau nid yw 'cynigion' cystal ag y maen nhw'n ymddangos. Er enghraifft, dwy botel 1 litr o sudd oren am £5.00 ond mae potel 2 litr yn costio £4.99!

Allwch chi ddod o hyd i gynigion diddorol?

Her: Allwch chi ddewis rhywbeth i'w fwyta neu yfed a meddwl am gynnig arbennig ar ei gyfer?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys arian mewn bywyd go iawn, yn defnyddio dau le degol a meddwl yn fathemategol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Dylunio *hobbit*



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

“ They are a little people, about half our height, and smaller than the bearded dwarves. Hobbits have no beards. They are inclined to be fat in the stomach; they dress in bright colours (chiefly green and yellow); wear no shoes, because their feet grow natural leathery soles and thick warm hair like the stuff on their heads (which is curly); have long clever brown fingers, good natured faces, and laugh deep fruity laughs.”

O'r llyfr 'The Hobbit' gan J. R. R. Tolkien

Dyluniwch *hobbit* yn defnyddio'r wybodaeth uchod.

Ffeithiau am fodau dynol

Mae hyd breichiau ar led yr un hyd â thaldrâ person.
Mae eu pennau tua $\frac{1}{7}$ neu $\frac{1}{8}$ o'u taldra.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Amcangyfrif, cymharu a chyfrifo'n defnyddio gwahanol fesurau'n gywir; datrys problemau'n defnyddio ffracsiynau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Arwynebedd a pherimedr



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae asiant tai'n rhoi maint yr ystafelloedd wrth werthu tŷ. Mesurwch ystafell yn eich tŷ i gyfrifo'r arwynebedd – gallech ddefnyddio papur sgwariau i'ch helpu i dynnu ei lun a chyfri'r sgwariau.

1. Pa ystafell yw'r un fwyaf yn eich tŷ?
2. Pa un yw'r leiaf?
3. Mesurwch y perimedr (o gwmpas yr ymylon).
Ai'r ystafell gyda'r arwynebedd mwyaf sydd â'r perimedr hiraf bob tro?

Gair o gyngor: I ddod o hyd i arwynebedd ystafell hirsgwar, mesurwch hyd ddwy ochr yn yr ystafell a'u lluosu. I ddod o hyd i berimedr yr ystafell, mesurwch hyd bob ochr yna adio'r cwbl.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Amcangyfrif, cymharu a chyfrifo'n defnyddio gwahanol fesurau'n gywir; datrys problemau'n defnyddio ffractsiynau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Dyddiadau Dydd San Ffolant



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Dydd San Ffolant yn cael ei ddathlu ar 14 Chwefror pob blwyddyn. Beth sy'n arbennig am Chwefror fel mis?

Dyma rai dyddiadau pwysig am San Ffolant:

- 270 - bu farw esgob o'r enw Valentine
- 496 - 14 Chwefror yn cael ei enwi fel Dydd San Ffolant
- 1537 - y Brenin yn enwi 14 Chwefror fel gwyliau ym Mhrydain
- 1868 - Cadbury yn creu ei focs siocled cyntaf ar gyfer Dydd San Ffolant



Allwch chi dynnu llinell amser o 1537 at heddiw? Wedyn, allwch chi ychwanegu dyddiadau pwysig sy'n ffitio i'r llinell amser?

Gair o gyngor: Gallent fod yn ddigwyddiadau hanesyddol neu'n ddyddiadau pwysig yn hanes eich teulu eich hun. Weithiau gallech roi dau ddyddiad yn y llinell amser, e.e. roedd y Rhyfel Byd Cyntaf rhwng 1914 a 1918 gan bara 4 blynedd.

Her: Beth yw'r dyddiad hynaf yn hanes eich teulu? Pa mor bell yn ôl oedd hyn?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau'n defnyddio misoedd a blynedd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers



Dyma enghraifft o groesair rhifau syml. Allwch chi ei ddatrys?

1	2		3	4	
	5	6		7	8
9		10	11		
12	13		14	15	
	16	17		18	19
		20			

Across

- 1. $50 - 26$
- 3. 5×7
- 5. $100 - 77$
- 7. $20.5 + 20.5$
- 10. 8×8
- 12. $56 + 41$
- 14. 9×4
- 16. $170 - 89$
- 18. $101 - 85$
- 20. 26×2

Down

- 2. Dwbl 21
- 4. Hanner 108
- 6. 12×3
- 8. Hanner 38
- 9. $100 - 1$
- 11. $\frac{1}{4}$ o 172
- 13. Dwbl 39
- 15. $32 + 29$
- 17. $\frac{5}{10}$ o 30
- 19. 15×4

Her: Allwch chi a'ch teulu feddwl am un arall i'ch ffrindiau ei ddatrys?

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Ymarfer defnyddio dulliau mathemateg pen ar gyfer y pedair gweithred rifyddol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Platiau rhif ceir



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Edrychwch ar y ceir mewn maes parcio neu yn eich stryd.
Ysgrifennwch y digid cyntaf ar blatiau rhif tri o wahanol geir.**

1. Beth yw'r 3 rhif ar gyfer y ceir y daethoch o hyd iddynt?
2. Beth yw'r cyfanswm o adio'r digidau?
3. A oes ots ym mha drefn yr adiwch y digidau?

Her: Allwch chi ddod o hyd i blatiau rhif tri o geir lle y mae'r digidau cyntaf yn adio i roi mwy na 20?

Allwch chi feddwl am un arall? Ydy o'n bosib os yw un o'r digidau'n 1?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys ystod o broblemau, meddwl yn fathemategol a gweithio'n systematig.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Tasg tablau lluosï



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pa dabl lluosï yw hwn? (Cliw: nid yw mewn trefn!)

Mae pob llythyren yn cynrychioli digid.

A x F = GJ
E x F = DH
C x F = GC
D x F = AB
J x F = HJ
G x F = F
GB x F = FB
F x F = AF
H x F = CH
K x F = HC

A x F

Allwch chi greu tabl lluosï arall tebyg i hwn?

? = GJ

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

 National
Numeracy
Getting on with numbers

Gair o gyngor: Faint o luosymiau digid sengl sydd yn y tabl lluosu hwn? Felly pa dabl lluosu all hwn DDIM bod?

Allwch chi ddod o hyd i'r lluoswm sy'n rhif sgwâr? Sut fydddech chi'n ei adnabod?

Allwch chi ddod o hyd i'r lluosrif sy'n $\times 1$? Sut fydddech chi'n ei adnabod?

Allwch chi ddod o hyd i'r lluosymiau sy'n rhifau 'ar-ddeg'? Faint allwch chi ddod o hyd iddynt?

Pa dablau lluosu sydd â'r un nifer o luosymiau 'ar-ddeg'?

=FB



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Ad-alw a defnyddio ffeithiau lluosu. Datrys ystod o broblemau a datblygu'r meddwl mathemategol a sgiliau rhesymu.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Paratoi pitsa



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mewn siop bitsa, mae Antonio'n defnyddio $\frac{3}{5}$ jar o stwnsh tomatos ar bob pitsa.

Mae ganddo 4 jar o stwnsh tomatos. I faint o bitsas fyddai hyn yn ddigon?


Gair o gyngor: Tynnwch lun y jariau a'u rhannu i'r ffracsiynau sydd ei angen.

Yn eich cwpwrdd, mae gennych y cynhwysion hyn:

- 5 twb o gaws wedi'i gratio
- $1\frac{1}{2}$ tafell o ham
- $\frac{3}{4}$ twb o fadarch wedi eu torri'n fân
- $\frac{8}{10}$ paced o nionod wedi'u torri'n fân
- 8 corgimwch
- $\frac{1}{2}$ tun o bîn-afal
- 2 tafell o salami
- 4 pupur tsili

Allwch chi greu **3 gwahanol bitsa** yn defnyddio'r rhain?

Gair o gyngor: Nid oes raid i chi ddefnyddio popeth neu gallwch rannu'r ffracsiynau'n rhai llai.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau gyda ffracsiynau i rannu meintiau; adio a thynnu ffracsiynau gyda'r un enwadur.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Prisiau coctels



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Yn defnyddio'r rhestr brisiau, cyfrifwch gost (mewn £) pob jwg o goctel ffrwythau yn ôl faint o sudd sydd ym mhob coctel:

1. Jwg o Caru Cyrins Duon: 650ml o sudd cyrins duon a 150ml o sudd afal
2. Jwg o Afal Afallon: 400ml o sudd afal, 150ml o sudd lemwn a 100ml o sudd oren
3. Gyda dim ond £3.50, allwch chi greu eich rysâit coctel ffrwythau eich hun?

Her: Ewch ati i greu eich coctel eich hun gydag unrhyw rai o'r cynhwysion hyn. Beth fyddai'r gost?

Rhestr brisiau

Sudd pîn-afal:
60c am 100ml

Sudd oren:
40c am 100ml

Sudd lemwn:
50c am 100ml

Sudd afal:
80c am 100ml

Sudd cyrins duon:
30c am 100ml

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Amcangyfrif, cymharu a chyfrifo gwahanol fesurau, gan gynnwys arian gyda phunnoedd a cheiniogau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Teithio o gwmpas y DU




**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Pe bai'n rhaid i chi drefnu
trip i Glasgow yn yr Alban, pa
drafnidiaeth fydddech chi'n ddewis
a pha mor hir fyddai'n ei gymryd?**

Defnyddiwch y we, llyfrau neu eich
dychymyg i greu amserlen o'ch siwrne.

*(Os ydych yn byw yn Glasgow, dewiswch
rywle pellach i ffwrdd!)*



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Darllen, ysgrifennu a
throsi amser rhwng
clociau 12 a 24 awr
analog a digidol,
cyflwyno data.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Penbleth bag awyren



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pan fydd pobl yn teithio ar awyren, maen nhw'n cael mynd â bag bach ar yr awyren.

Ni ddylai'r bag bwyso dros 7kg.

Ni all y bag fod yn fwy na
55cm x 45cm x 25cm.

Beth fydddech chi'n dewis ei gario? Nid oes angen dillad arnoch – bydd y rhain yn eich cês mawr. Pa bethau sy'n annisgwyl o drwm?

Gair o gyngor: Dowch o hyd i fag o faint tebyg a'i bacio eich hun.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur, cymharu, adio a thynnu màs (g/kg) a hyd (m/cm/mm).

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Her amser



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Siaradwch am y rhain a cheisio eu rhoi mewn trefn!

Munud	Amser i goeden dderwen dyfu'n 30 metr o daldra	Miliwn o eiliadau	Amser i ferwi wy meddal
Awr	Faint o amser ers yr oes iâ ddiwethaf	Mis	Gêm o bêl-droed heb amser ychwanegol
Darllen bob un o'r llyfrau Harry Potter	Blwyddyn	Faint o flynyddoedd i'r Ddaear fynd o gwmpas yr haul	Cant o fisoedd
Cawod dda	Faint o fisoedd ers i chi gael eich geni	Amser tacluso eich llofft	Mil o ddiwrnodau



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Her: Meddyliwch am bos amser eich hun.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau drwy drosi oriau'n funudau, munudau'n eiliadau, blynnyddoedd yn fisoedd, wythnosau yn ddiwrnodau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Gweithio gyda'ch calon



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**


Mae pawb yn gwybod pa mor bwysig yw gweithio'r galon i'w chadw'n iach. Un ffordd dda yw drwy neidio, hopian a sgipio.

Amcangyfrifwch faint allwch chi hopian ar un droed mewn 15 eiliad. Ysgrifennwch eich amcan-nifer. Gofynnwch i'ch teulu ymuno ac ysgrifennu eu hamcan-nifer.

Rŵan – drwy wyllo'r cloc neu ddefnyddio stopwats neu amserydd – faint allwch chi hopian mewn 15 eiliad. Ar y diwedd, ysgrifennwch faint a wnaethoch.

Cymharwch amcan-nifer pawb â'u nifer wirioneddol – beth sylwch chi arnoch?
Sut allwch chi gofnodi hyn?
Beth oedd yr amcan-nifer mwyaf cyffredin?
Beth oedd y sgôr gwirioneddol mwyaf cyffredin?

Ar sail eich sgôr gwirioneddol, faint y meddyliwch allwch ei wneud mewn munud?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau'n defnyddio a throsi eiliadau'n funudau; dehongli a chyflwyno gwahanol ddata; datrys problemau cymharu'n defnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Atebion i Weithgareddau Bl4



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Datrys y cod

“Remember, remember
the fifth of November”

“Gunpowder, treason and plot”

Pos fferins

3 cyfuniad:

- 7 paced o fferins cnoi
a 15 paced o lolipops
- 14 paced o fferins cnoi
a 10 paced o lolipops
- 21 paced o fferins cnoi
a 5 paced o lolipops

Caffi corachod Siôn Corn:

- Mins pei = £3.50
- Paned o de = 50c
- Bisged carw - £1.00

Bwydlen caffi

12 o gyfuniadau posib

Lladrad aur

Mae 17, 37 a nifer o rifau eraill
fel hyn yn ateb y cwestiwn.



Pos croesair

Across	Down
1. 24	2. 42
3. 35	4. 54
5. 23	6. 36
7. 41	8. 19
10. 64	9. 99
12. 97	11. 43
14. 36	13. 78
16. 81	15. 61
18. 16	17. 15
20. 52	19. 60

Platiau rhif ceir

23 o bosibiliadau –
allwch chi ddod o hyd
i bob un? Ddim yn bosib
os yw un digid yn 1.

A x F

Prisiau coctels

1. £3.15
2. £4.40
3. £3.90
4. £4.35
5. £3.75



Tabl llusoi

Mae'n cynrychioli tabl llusoi 6

Paratoi pitsa

- 6 pitsa ($\frac{2}{5}$ ar ôl)
- 7 pitsa ($\frac{1}{3}$ ar ôl)

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669